15 Mawrth 2016

County Hall
Cardiff,
CF10 4UW
Tel: (029) 2087 2087

Neuadd y Sir
Caerdydd,
CF10 4UW
Ffon: (029) 2087 2088

Ar 10 Mawrth 2016, cytunodd Gabinet Dinas Caerdydd ar gynnig i wneud y canlynol:

- Sefydlu Ysgol Gynradd Gabalfa, Colwill Road, Gabalfa, Caerdydd, CF14 2QQ gyda 210 o lefydd o fis Medi 2017
- Sefydlu Ysgol Glan Ceubal, Colwill Road, Gabalfa, CF14 2QQ yn barhaol gyda 210 o lefydd o fis Medi 2016
- Estyn ystod oedran Ysgol Glan Ceubal o 4-11 i 3-11 o fis Medi 2016

Ystyriodd y Cabinet y cynnig a nodwyd na chafwyd unrhyw wrthwynebiad statudol.

Roedd y Cabinet yn fodlon y byddai'r cynnig cyn rhoi:

- Gallu i ateb y galw yn well o ran y galw am leoedd cynradd cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn yr ardal leol;
- Cyfle i fuddsoddi mewn creu cyfleusterau modern o safon uchel a fyddai'n gallu cefnogi darpariaeth cwricwlwm eang a chytbwys.

Cyfeirio Penderfyniad yr Awdurdod Lleol at Weinidogion Cymru

Dan adran 54 Deddf 2013, pan mae cynigion wedi eu cymeradwyo gan Awdurdod Lleol, mae modd i'r cyrff canlynol gyfeirio'r cynnig at Weinidogion Cymru o fewn 28 diwrnod i'w ystyried:

Awdurdod Lleol arall y mae'r cynnig yn effeithio arno;
ii. Y corff crefyddol priodol;
iii. Corff Llywodraethu ysgol wirfoddol neu sefydledig;
iv. Ymddiriedolaeth yn cadw eiddo ar ran ysgol wirfoddol neu sefydledig;
Sefydliad addysg bellach y mae'r cynnig yn effeithio arno.

Mae'r penderfyniad yn dibynnu ar y gweithdrefnau galw i mewn fel y'u nodir yng nghyfansoddiad y Cyngor, sy'n caniatáu adolygu penderfyniadau'r Cabinet. Pe bai'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn, byddai'r holl randdeiliaid yn cael gwybod.

Os oes gennych ymholiadau neu y mae angen mwy o wybodaeth arnoch, cysylltwch â'r Tîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion ar 029 2087 2917 neu drwy e-bostio ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk.

Yn gywir

Janine Nightingale
Pennaeth Trefniadaeth, Mynediad a Chynllunio Ysgolion

100% recycled paper
100% o bapur a ailgylchwyd